

# Digimap for Schools

## Hedfan yn Uchel: Eryrod y Môr

Paula Owens

### Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r lluo o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

### Teitl: Hedfan yn Uchel: Eryrod y Môr

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Lleoliad ac ystod Eryrod y Môr	Isle of Mull, yr Alban

Gwybodaeth/Sgiliau	Dod o hyd i le, ychwanegu marcwyr, defnyddio offeryn byffro, darllen a dehongli topograffeg a phatrymau defnydd tir.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Enwi a dod o hyd i ranbarthau daeryddol a'u nodweddion adnabod dynol a ffisegol, nodweddion topograffeg allweddol (gan gynnwys bryniau, mynyddoedd, arfordiroedd ac afonydd), a phatrymau defnydd tir. Defnyddio mapiau, atlasau, globau a mapio digidol/cyfrifiadurol i ddod o hyd i wledydd a disgrifio nodweddion a astudiwyd.
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth leoliadol a'i chyflwyno. Amlygu a disgrifio patrymau gofodol (dosbarthiadau) lleoedd ac amgylcheddau a sut maen nhw'n gysylltiedig.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Canlyniadau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lleoedd a'r Amgylchedd: 2-07a, 2-08a.

## Gweithgaredd

Ychwanegu anodiad at fapiau o'r Isle of Mull i ddangos maint tiriogaeth nodweddiadol Eryr y Môr, ymchwilio i gynefinoedd dewisol, trafod y rhesymau dros ac yn erbyn ailgyflwyno'r aderyn hwn.

## Cyflwyniad

Eryr y Môr yw'r aderyn ysglyfaethus mwyaf yn y DU, gyda rychwant adenydd o 2.5 metr. Yn gynnar yn yr 20<sup>fed</sup> ganrif, diflannodd yr aderyn yn y DU oherwydd eu bod nhw'n cael eu lladd yn anghyfreithlon, ond nawr, diolch i raglen ailgyflwyno, mae'r aderyn hwn yn gwneud ailymddangosiad.

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Prif weithgaredd


Gwnaeth y cyw Eryr y Môr cyntaf i fagu plu o nyth yn yr Alban (y DU) mewn 70 mlynedd, wneud hynny ar yr Isle of Mull ym 1985. Yn 2013, yn dilyn magu pob blwyddyn ers hynny, mae 16 pâr wedi'u sefydlu ar yr ynys. Mae arbenigwyr lleol yn awgrymu y gall y ffigur hwn gynrychioli rhywbeth sy'n agos at lefel dirlawnder ar gyfer boblogaeth Eryr y Môr ar yr Isle of Mull, er ar ynys gyda dros 300 milltir o arfordir a 338 milltir sgwâr o dir uchel, ymddengys fod ardaloedd o diriogaeth addas ar gael i'w feddiannu o hyd.

Cyflwyno disgyblion i Eryr y Môr gan ddefnyddio'r ddalen wybodaeth a'r dolenni ar y we gyda chlipiau fideo. Esboniwch fod tiriogaeth yr aderyn hwn yn amrywio o oddeutu 30 cilometr sgwâr i 70 cilometr sgwâr, ond gallan nhw fynd ymhellach. Mae rhaglen dagio yn golygu bod sawl Eryr y Môr ar yr Isle of Mull yn cael eu holrhain gan loeren ac mae eu symudiadau'n cael eu mapio.

Mae rhaglen fagu lwyddiannus yr adar hyn ar yr Isle of Mull wedi bod yn atyniad mawr i dwristiaid ac wedi dod â llawer o arian i'r economi leol. Fodd bynnag, mae rhai ffermwyr o'r farn bod yr aderyn yn bygwth eu bywoliaeth a chynefin aderyn eiconig arall, sef yr Eryr Euraid. A oes digon o le i bawb?

Dosbarthwch y daflen waith a'r ddalen wybodaeth a ddarparwyd.

Bydd y disgyblion yn mapio lleoliad Loch Frisa ac yna'n mapio ardal sy'n dangos ystod nodweddiadol tiriogaeth Eryr y Môr. Dylai eu map edrych rhywbeth yn debyg i hwn, gan ddangos mai'r nifer uchaf o barau yn magu y gallai'r Isle of Mull eu cynnal fyddai 14-15.



## Mynd gam ymhellach

- Ymchwiliwch i rai o arferion bwyta Eryrod y Môr a darganfyddwch pa fath o diriogaeth y maen nhw'n ei hoffi. Ble maen nhw'n fwyaf tebygol o fyw ar wahân i'r Isle of Mull? Mae'r ddalen wybodaeth a ddarperir yn dweud wrthyfych am system olrhain yr RSPB a sut gallwch ychwanegu eu data at *Google Earth* i ddilyn llwybrau hedfan Eryrod y Môr. Rhowch gynnig ar hyn gyda'ch dosbarth ac edrychwch ar y tirweddau lle dangosir llawer o weithgarwch a thrafodwch y mathau o dirwedd sydd orau ganddynt. Ewch i *Digimap for Schools* a thynnwch lun yr ardaloedd eto i ddangos tiriogaeth, ond y tro hwn, defnyddiwch '*Draw an area*' (tynnu llun ardal) ac yna '*Draw a freeform shape*' (tynnu llun siâp ffurfrydd) i ddangos ardaloedd y dirwedd rydych chi o'r farn sydd orau gan Eryrod y Môr, gan ystyried y nodweddion tirwedd a ddangosir ar y map, er enghraifft, dŵr, coedwig, ac yn y blaen.

# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

- Mae rhai pobl yn dweud nad yw ailgyflwyno Eryrod y Môr yn beth da gan y gallan nhw ymyrryd â ffermio a'u bod nhw'n costio arian i ffermwyr trwy, er enghraifft, mynd ag ŵyn neu ddychryn defaid beichiog. Mae pobl eraill yn falch bod yr aderyn mawreddog hwn yn ôl yn yr awyr eto, ac yn dweud eu bod nhw'n dod â llawer o arian ychwanegol trwy dwristiaeth. Beth yw'ch barn chi? Lluniwch restr o fanteision ac anfanteision ailgyflwyno'r aderyn hwn a chynhaliwch drafodaeth ddosbarth.
- Defnyddiwch ychydig o wybodaeth o'r rhaglen olrhain Eryrod y Môr â lloeren i lunio eich map eich hun gan ddangos rhai o'u lleoliadau yn ystod yr haf a'r gaeaf.
- Ysgrifennwch daflen ar gyfer taith gerdded dywysedig gyda map i ddangos ble y gellir gweld Eryrod y Môr.

## Dolenni ar y we

Gwybodaeth gyffredinol a chlipiau fideo o Eryrod y Môr

<http://www.rspb.org.uk/wildlife/birdguide/name/w/whitetailedeagle/index.aspx>

Eryrod y Môr ar yr Isle of Mull: gwybodaeth am y boblogaeth a'u cynefin <http://www.white-tailed-sea-eagle.co.uk/population-2013.html>

Amrywiaeth dda o wybodaeth am Eryrod y Môr a chlipiau sain o'u galwad

[http://www.bbc.co.uk/nature/life/White-tailed\\_Eagle](http://www.bbc.co.uk/nature/life/White-tailed_Eagle)

Darganfyddwch pam y rhwystrwyd cynlluniau i ailgyflwyno Eryr y Môr yn East Anglia

<http://www.bbc.co.uk/news/10303266>

Sut yr ailgyflwynwyd Eryrod y Môr yn yr Alban [www.snh.org.uk/publications/online/NaturallyScottish/seaeagles/page3.asp](http://www.snh.org.uk/publications/online/NaturallyScottish/seaeagles/page3.asp)

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*





# Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Dalen wybodaeth: Eryrod y Môr

## Cynefin

Mae'n well gan Eryrod y Môr yn yr Alban lynnoedd cysgodol neu lynnoedd môr yn hytrach na safleoedd arfordirol agored. Mae'n well ganddynt nythu mewn coed yn hytrach nag ar glogwyni. Ar gyfartaledd, mae eu tiriogaeth yn amrywio rhwng 30 cilometr sgwâr a 70 cilometr sgwâr, ond mae ardaloedd llawer yn fwy yn bosibl, gan ddibynnu ar argaeledd ysglyfaethau. Mae'r oedolion sy'n magu yn aros yn agos at eu tiriogaeth fagu trwy gydol y flwyddyn. Efallai y bydd yr adar sydd ddim yn magu yn teithio ymhellach i ddod o hyd i ddigon o fwyd. Ym Mhrydain, mae Eryrod y Môr yn anafudol; gellir dadlau mai'r amser gorau i weld y rhywogaeth yw yn ystod misoedd y gaeaf pan mae bwyd yn fwy prin.

## Eryrod y Môr ar yr Isle of Mull

Mae Loch Frisa yn un o'r lleoedd gorau i weld golygfeydd ysblennydd Eryrod y Môr, ac mae cuddfan bwrpasol yno. Mae un pwynt mynediad ym mhen deheuol **Ilwybr Loch Frisa**, oddi ar brif ffordd yr A848 o Salen i Tobermory, tua thair milltir i'r gogledd o Salen. (Cyfeirnod Grid yr Arolwg Ordnans: **NM 553 459**). [www.forestry.gov.uk/mullseaeagles](http://www.forestry.gov.uk/mullseaeagles)

Ers 1998, mae pâr o Eryrod y Môr, o'r enw 'Skye a Frisa', wedi bod yn nythu ar Loch Frisa, yr Isle of Mull. Daeth y pâr yn enwog ar ôl ymddangos ar raglenni *Springwatch* ac *Autumnwatch* ar y BBC. Roeddent yn dal i nythu yn Loch Frisa yn 2013, a gwnaethant fagu un cyw.

Cewch fwy o wybodaeth am y pâr ar: <http://www.white-tailed-sea-eagle.co.uk/mull-sea-eagles.html>

ac ar y wefan hon am Tobermory, sef y brif dref ar yr Isle of Mull <http://www.tobermory.co.uk/activities/wildlife-attractions/white-tailed-eagle-hide/>

## Tagio a monitro

Mae llawer i'w ddysgu o hyd am yr hyn y mae Eryrod y Môr yn ei wneud yn ystod tair i bedair blynedd gyntaf eu bywyd yn y DU. Nid ydynt yn mudo fel y gweilch, ond maen nhw'n crwydro ymhell o gwmpas yr Alban, efallai i fannau eraill yn y DU ac Iwerddon, efallai i Ewrop! Pwy a wŷr? Mae tagiau lloeren pŵer solar, bach, wedi'u gosod ar yr eryrod ifanc, a fydd yn trosglwyddo gwybodaeth am eu taith. I ddechrau – cyn belled â bod y batri'n llawn – mae'r tag yn anfon union safle'r eryr (o fewn 20 metr) ar y Ddaear bob awr, yn ogystal â manylion ynglŷn â chyfeiriad, cyflymder ac uchder trwy'r System Leoli Fyd-eang (GPS) i system gyfrifiadurol. Mae hyn yn golygu y gellir ffurfio darlun manwl iawn o lwybr yr aderyn.

Mae'r misoedd a'r blynyddoedd cyntaf yn beryglus; ble ac am ba hyd maen nhw'n stopio i glwydo a bwydo, pryd maen nhw'n hedfan eu teithiau hir cyntaf o'r Isle of Mull, pryd maen nhw'n annibynol o'r oedolion, ble a phryd fyddan nhw'n dechrau ystyried setlo i fagu? Bydd gallu olrhain teithiau'r adar yn ychwanegu at ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o fywydau Eryrod y Môr, a gall helpu i lywio gwaith cadwraeth yn y dyfodol [www.rspb.org.uk/wildlife/tracking/mulleagles/faq.aspx](http://www.rspb.org.uk/wildlife/tracking/mulleagles/faq.aspx)

Ychwanegu'r data at eich meddalwedd *Google Earth*.

Mae'n hawdd ychwanegu data'r lloeren at eich copi o *Google Earth* – dilynwch y camau isod:

- 1 Lansiwch feddalwedd Google Earth
- 2 Ewch i'r ddewislen *Add* (ychwanegu) a chliciwch ar *Network Link* (cyswllt rhwydwaith)
- 3 Rhowch *Mull White-tailed Eagles* (Eryrod y Môr Isle of Mull) yn y maes *Name* (enw)
- 4 Pasiwch y cyfeiriad canlynol yn y maes *Link* (dolen) <http://www.rspb.org.uk/kml/mulleagles.kml>
- 5 Cliciwch *OK* (iawn) i ychwanegu'r data at y rhestr lleoedd ar ochr chwith y sgrin.


Cewch fwy o wybodaeth ar [www.rspb.org.uk/wildlife/tracking/mulleagles/googleearth.aspx](http://www.rspb.org.uk/wildlife/tracking/mulleagles/googleearth.aspx)


# Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

## Mapio Eryrod y Môr: cyfarwyddiadau i'r disgyblion

- 1 Agorwch *Digimap for Schools*. Defnyddiwch y blwch chwilio i ddod o hyd i 'Loch Frisa'. Agorwch y bar offer *Annotation* (anodi) a dewiswch 'Add marker' (ychwanegu marciwr). Cliciwch ar y llyn. Yna dewiswch 'Place label' (label lle) gan ddewis y maint testun Arial 18. Cliciwch ar bwys y marciwr ac ysgrifennwch 'Loch Frisa'. Caewch y bar offer *Annotation* (anodi).
- 2 Rydych yn mynd i ddangos ar y map yr ardal a all fod yn diriogaeth Eyr y Môr. Mae Skye a Frisa yn nythu yn y coedwigoedd ar bwys Loch Frisa, felly dyma fydd eich man cychwyn. Llaciwch i Lefel 5 er mwyn i chi allu gweld morlin rhan ogleddol yr Isle of Mull yn eithaf amlwg yn ogystal â'ch marciwr sy'n dangos Loch Frisa.
- 3 Agorwch y bar offer *Annotation* (anodi) ac edrychwch ar 'Fill options' (dewisiadau llenwi). Gwnewch yn siwr bod y lefel tryloywder yn 50% a dewiswch liw, un golau fyddai orau mwy na

thebyg. Yna dewiswch . Hwn yw'r 'point buffer tool' (offeryn byffro pwynt). Byddwch yn ei ddefnyddio i ddarlunio ardal. Agorwch yr offeryn a bydd yn gofyn i chi pa faint rydych chi eisiau radiws eich cylch. Anwybyddwch y dewisiadau a theipiwch '3' a fydd yn rhoi mwy na 28 cilometr sgwâr i chi.



- 4 Cliciwch eich marciwr ar Loch Frisa a bydd cylch yn ymddangos a fydd yn dangos yr ardal leiaf sydd ei hangen ar bâr o Eryrod y Môr.
- 5 Ychwanegwch fyffer arall gan ddefnyddio'r un dull, ond dewiswch liw arall ar gyfer yr amlinelliad a gwnewch y radiws yn 4.75. Bydd hwn yn dangos tiriogaeth fwy cyfforddus ar gyfer yr adar.
- 6 Nawr, llaciwch un lefel i weld yr Isle of Mull cyfan ar y sgrin a pharhau i ychwanegu cylchoedd y maint hwn heb iddyn nhw orgyffwrdd. Mae angen i chi actifadu'r offeryn  i'w symud o gwmpas er mwyn gwneud yn siwr nad ydynt yn cyffwrdd â'i gilydd. Gwiriwch eich cylchoedd i wneud yn siwr eu bod nhw'n cynnwys cynefin sy'n addas ar gyfer yr adar. **Faint o barau sy'n magu all yr ynys eu cynnal?**

Os oes gennych amser, ychwanegwch rai anodiadau ar y map, fel lleoliad y guddfan bwrpasol a manau cyfarfod ar gyfer ymwelwyr. Pan fyddwch yn hapus gyda'ch map, dewiswch lun rydych yn ei hoffi, rhowch deitl i'r map, cadwch y map ac yna ei argraffu.